

Grant Buddsoddi mewn Coetir (TWIG) (rownd un i pedwar)

[See all updates](#)

Cynllun grant gyda'r bwriad o greu, adfer a gwella coetiroedd yng Nghymru, fel rhan o fenter Coedwigoedd Cenedlaethol Llywodraeth Cymru.

Cafodd y dudalen ei diweddarau ar 30 Ionawr 2024. [Gweler yr holl ddiweddariadau.](#)

Pwysig

Nid yw'r Grant Buddsoddi mewn Coetir yn derbyn ceisiadau ar hyn o bryd.

- [Porwch drwy'r cyllid sydd ar gael](#)

Ai dyma'r rhaglen orau i chi?

- Ydych chi'n berchennog tir a/neu os oes gennych reolaeth lwyr dros dir?
- Ydych chi am wella, rheoli neu greu coetiroedd newydd?
- A all eich prosiect hyrwyddo cyfranogiad cymunedol? Er enghraifft, drwy gynllunio a darparu llwybrau troed, llwybrau natur, neu gerfluniau?
- A oes angen grant arnoch o £40,000 i £250,000?

Os mai ydw oedd eich ateb i'r cwestiynau hyn, yna mae'r cynllun yma ar eich cyfer chi.

Trosolwg

Mae'r angen i gynorthwyo adferiad natur yn fater brys. Mae gofalu am natur a helpu pobl i ddeall ei bwysigrwydd yn fwy perthnasol nag erioed o'r blaen.

Rydym eisoes wedi darparu'r rhaglen [Grant Coetiroedd Cymunedol](#). Ariannodd grwpiau ledled Cymru i greu coetiroedd, fel lleoedd ar gyfer natur, yn eu cymunedau eu hunain.

Mae'r Grant Buddsoddi mewn Coetir (TWIG) newydd ar gyfer tiffeddianwyr i greu coetiroedd i gymunedau lleol eu defnyddio a'u mwynhau, **fel rhan o'r fenter Coedwigoedd Cenedlaethol.**

Beth yw'r Goedwig Genedlaethol?

Mae [Coedwig Genedlaethol i Gymru](#) yn fenter sy'n cael ei harwain gan Lywodraeth Cymru. Bydd yn creu rhwydwaith o goetiroedd a choedwigoedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd drwy Gymru benbaladr, o dan reolaeth o ansawdd uchel.

Bydd y Goedwig Genedlaethol yn ymestyn ar hyd a lled Cymru, fel y gall pawb gael mynediad iddi lle bynnag y maen nhw'n byw. Bydd yn cynnwys ardaloedd trefol a gwledig ill dau – gydag ymrwymiad cynnar i **greu 30 o safleoedd coetir newydd Coedwig Genedlaethol i Gymru**.

Bydd yn sicrhau amrywiaeth enfawr o fanteision – a elwir yn wasanaethau ecosystem – i'r amgylchedd, yr economi a chymdeithas:

- chwarae rhan bwysig wrth ddiogelu natur a mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth
- cynyddu cynhyrchiant pren a dyfir yn lleol – gan ganiatáu i'r diwydiant coedwigaeth lleol ffynnu, creu swyddi a lleihau dibyniaeth ar bren a fewnforiwyd
- cefnogi iechyd a llesiant cymunedau – enghraifft ymarferol o [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#)

Bydd y Goedwig Genedlaethol yn dod â phobl ynghyd i uniaethu â'r coetiroedd sydd o'u cwmpas a'u gwerthfawrogi. Bydd y mwyafrif o'r coetiroedd yn cael eu plannu ar sail wirfoddol gan gymunedau, ffermwyr a thirfeddianwyr eraill ar draws Cymru.

[Ar ôl i chi ddarllen y canllawiau isod, ewch i'n porth ymgeisio](#)

Expand All accordions

Beth mae'r Grant Buddsoddi mewn Coetir yn ei gynnig?

Mae'r Grant Buddsoddi mewn Coetir ar gyfer tirfeddianwyr a/neu'r rhai sydd â rheolaeth lwyr dros dir. Bydd eich grant yn cael ei ddefnyddio i wella ac ehangu coetiroedd presennol, ac o dan amgylchiadau penodol, creu coetiroedd newydd yn unol â Safon Coedwigaeth y DU.

Mae'n rhaid i'r coetiroedd hyn fod â'r potensial i ddod yn rhan o'r Goedwig Genedlaethol yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r coetiroedd fod:

- wedi'u rheoli'n dda
- yn hygyrch
- yn rhoi cyfle i gymunedau lleol gymryd rhan

Bydd y cynllun yn cynnig:

- grantiau o £40,000 i £250,000 ar gyfer prosiectau coetiroedd (gellir hefyd ystyried prosiectau eithriadol sy'n costio mwy na £250,000)
- hyd at 100% o gyllid
- hyd at ddwy flynedd i gyflawni'r prosiect

- cyllid cyfalaf a refeniw (esbonnir y gwahaniaethau isod yn yr adran 'Pa gostau allwch chi wneud cais amdanynt?')
- gall prosiectau mawr, uchelgeisiol a chymhleth ddefnyddio cyllid Grant Buddsoddi mewn Coetir gyda grantiau eraill Llywodraeth Cymru, yn ogystal â ffynonellau eraill o arian cyhoeddus a phreifat canmoliaethus
- uchafswm o un Grant Buddsoddi mewn Coetir fesul safle ar unrhyw un adeg (gallwch wneud mwy nag un cais)
- cymorth gan swyddogion cyswllt Coedwig Genedlaethol i Gymru ynghylch rhaglen Coedwig Genedlaethol i Gymru a sut i ddangos y canlyniadau
- cyngor a chefnogaeth gennym ar sut i wneud cais

Bydd pum rownd o gyllid Grant Buddsoddi mewn Coetir dros y ddwy flynedd nesaf. Darllenwch yr adran 'Dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau a dyddiadau allweddol' i gael rhagor o wybodaeth am amseriadau.

Cyllideb

Cyfanswm y cyllid sydd ar gael yw £1.9miliwn yn y flwyddyn ariannol 2022–2023. Mae cyllidebau'r flwyddyn i ddod yn debygol o fod oddeutu £3m.

Ariennir y rhaglen ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Cronfa yw hon yn bennaf i wneud gwaith cyfalaf. Gellir dyrannu uchafswm o 25% o bob grant i wariant refeniw. Yn ogystal, gellir defnyddio hyd at 10% o'r elfen gyfalaf ar gyfer cynllunio prosiectau a chostau gweithredu prosiect uniongyrchol eraill. Mae canllawiau ar gyfer yr hyn sy'n cyfrif fel costau refeniw a chyfalaf ar gael isod yn yr adran 'Pa gostau allwch chi wneud cais amdanynt?'.

Expand All accordions

Pwy all ymgeisio?

Mae'r cynllun yn agored i unrhyw dirfeddianwyr/rheolwyr gan gynnwys sefydliadau dielw a pherchnogion preifat. Mae hyn ar yr amod bod gennych yr hawliau, y trwyddedau a'r caniatâd cywir i ymgymryd â gweithgarwch.

Expand All accordions

Beth rydym yn chwilio amdano

Dylai eich prosiect:

adfer, gwella a/neu greu coetiroedd

1. adfer a gwella coetiroedd yn unol â chanlyniadau Coedwig Genedlaethol i Gymru
2. Creu coetir gyda chynllun ar gyfer cynnal a chadw yn y dyfodol.
3. Ar ôl y prosiect, gellir cynnwys un taliad i dalu am bum mlynedd o waith cynnal a chadw yn eich cais am grant. Er mwyn hawlio'r arian hwn, bydd gofyn i chi gyflwyno cynllun rheoli manwl ar gyfer y safle, ar ôl cwblhau'r prosiect (darganfyddwch fwy o dan 'Sut i wneud cais').
4. Diwallu anghenion pobl leol fel man cyhoeddus a chyfrannu at wasanaethau ecosystemau yn yr ardal leol. Er enghraifft, mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth a chreu swyddi lleol.
5. dangos manteision lluosog sy'n rhychwantu llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol
6. ystyried mapiau datganiad ardal [Cyfoeth Naturiol Cymru](#) (CNC), canllawiau [Safon Coedwigaeth y DU](#) a [Map Cyfle Coetir 2021](#) i gael arweiniad ar y sensitifrwydd tebygol ar safle arfaethedig ar gyfer plannu newydd

Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn:

- ardaloedd trefol nad oes ganddynt fannau gwyrdd
- ardaloedd a fydd yn galluogi rhwydweithiau natur cysylltiedig ar hyd a lled Cymru

Mae'n rhaid i'r coetir fod yn gweithio tuag at gyflawni canlyniadau'r Goedwig Genedlaethol (darllenwch 'Sut byddwn ni'n asesu ceisiadau?' i gael rhagor o wybodaeth am y canlyniadau hyn). Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar faint na threfniant y coed sydd i'w plannu.

Gallai planhigfeydd newydd fod yn:

- datblygu a chreu coetiroedd mawr newydd
- plannu coed trefol
- creu neu wella cyfranogiad y gymuned mewn coetir a mynediad iddo
- coridor eang o wrychoedd neu goedwigoedd i gysylltu dau goetir presennol
- prosiectau plannu cymhleth, uchelgeisiol sy'n rhychwantu dwy flynedd

Gallai gwelliannau i goetiroedd presennol fod fel a ganlyn:

- mabwysiadu coetir gan y gymuned leol
- teneuo coed
- gosod llwybrau troed
- cynnal a chadw cyfleusterau mynediad diraddiedig mewn coetiroedd cymunedol sy'n cael eu defnyddio'n helaeth

Ar gyfer pob prosiect, mae angen Cynlluniau Rheoli Coedwigoedd. Os nad yw'r rhain eisoes ar waith, yna gall y grant dalu costau paratoi cynllun rheoli hirdymor manwl. Fodd bynnag, mae'n rhaid cyflwyno cynllun sylfaenol gyda'ch cais. Cyfeiriwch at 'Camau i'w cymryd cyn i chi wneud cais' i gael rhagor o wybodaeth.

Fel rhan o'r fenter Coedwigoedd Cenedlaethol, mae tair thema ychwanegol. Dylai ymgeiswyr ddisgrifio sut y bydd y prosiect yn cyfrannu at o leiaf un o'r themâu hyn:

- lliniaru ac addasu newid yn yr hinsawdd
- cefnogi twristiaeth a'r economi
- cefnogi neu gyflwyno sgiliau a hyfforddiant

Pa gostau allwch chi wneud cais amdanynt?

Mae'r gronfa hon i wneud gwaith cyfalaf yn bennaf. Gellir dyrannu uchafswm o 25% o bob grant i wariant refeniw. Yn ogystal, gellir defnyddio hyd at 10% o'r elfen gyfalaf ar gyfer cynllunio prosiectau a chostau gweithredu prosiect uniongyrchol eraill.

Mae'n bwysig eich bod yn nodi pa rai o gostau eich prosiect yw cyfalaf a refeniw. Gall ceisiadau gynnwys unrhyw un o'r canlynol:

Costau cyfalaf

Mae gwariant cyfalaf yn arian sy'n cael ei wario ar fuddsoddi a phethau a fydd yn creu twf yn y dyfodol. Ceir enghreifftiau o gostau cyfalaf derbyniol isod. Noder nad yw hon yn rhestr derfynol a bydd pob eitem o wariant yn cael ei hystyried fesul achos:

- prynu coed, llwyni a phlanhigion eraill i greu, ehangu neu wella ardaloedd coetiroedd
- paratoi safle, megis arolygon, ffensio, clirio sbwriel a chael gwared ar rywogaethau estron goresgynnol
- adeiladu llwybrau a gatiau hygyrch gydag ymrwymiad i'w cadw ar agor i'r cyhoedd a'u cynnal am o leiaf 20 mlynedd, os nad am gyfnod amhenodol
- creu llwybrau natur/addysgol
- creu mannau ar gyfer hamdden a chwarae
- creu mannau i gefnogi a gweld natur
- cost llafur sy'n gysylltiedig â gwella a/neu greu'r ardal goetir
- byrddau arwyddion/dehongli
- meinciau/seddau
- toiledau y gellir eu compostio ([dylai ymgeiswyr sy'n gwneud cais am doiledau y gellir eu compostio gysylltu â CNC i gael rhagor o gyngor gan fod angen trwyddedau yn aml](#))
- rheseli beiciau
- offer llaw/offer ar raddfa fach i'w defnyddio gan aelodau o'r gymuned leol (gellir contractio gwaith sy'n gofyn am offer mwy neu sgiliau arbenigol i mewn a'i ariannu drwy'r cynllun hwn) storio diogel ar gyfer offer llaw, offer ac eitemau eraill i helpu'r gymuned i gymryd rhan yn y coetir
Rheoli clefyd coed ynn sy'n marw, lle mae gwaith yn hanfodol er diogelwch y cyhoedd. Dim ond rhan fach o brosiect mwy ddylai hyn fod ac nid gofyniad cyfreithiol tiffeddiannwr i ymgymryd ag ef.
- cyflawni prosiectau (er enghraifft, cynllunio prosiectau, caffael deunyddiau, rheolaeth ariannol y prosiect) nad yw'n fwy na 10% o'r elfen gyfalaf.
- darpariaeth Gymraeg, megis costau cyfieithu
- costau hyrwyddo'r coetir i'r gymuned ehangach, megis argraffu taflenni
- traciau (dim ond os oes tystiolaeth glir o angen am fynediad i'r cyhoedd)
- ffyrdd (dim ond os oes tystiolaeth glir o angen am fynediad i'r cyhoedd)
- maes parcio (dim ond os oes tystiolaeth glir o angen am fynediad i'r cyhoedd)

Ar gyfer traciau, ffyrdd a meysydd parcio, bydd angen i ymgeiswyr ddangos eu bod wedi ystyried yn gyntaf opsiynau eraill ar gyfer mynediad cyhoeddus i'r coetir, megis cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Rhaid i chi eu diystyru gyda rhesymau priodol. Bydd cael tystiolaeth ategol gan gymunedau/grwpiau lleol o'u hangen am y gwaith hwn yn helpu gyda'ch cais.

Costau cyflawni'r prosiect

Gellir defnyddio hyd at uchafswm o **10%** o'r grant cyfalaf hwn ar gyfer cyflawni prosiectau. Mae hyn yn golygu costau sy'n eich helpu i greu'r coetir, er enghraifft: cynllunio prosiectau, deunyddiau caffael, rheolaeth ariannol ar y prosiect, llunio a dadansoddi gwybodaeth reoli am gyflawni prosiectau.

Costau refeniw

Gellir dosbarthu hyd at 25% arall o werth eich grant fel cyllid refeniw. Gall cyllid refeniw helpu gyda chost gyffredinol cynnal eich prosiect. Mae hyn yn cynnwys costau sy'n cynnwys pobl wrth gyflawni'r prosiect, a chostau i'ch helpu i gyflawni ein canlyniad gorfodol: bydd ystod ehangach o bobl yn ymwneud â threftadaeth. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ein canlyniad gorfodol yn yr adran 'Sut y byddwn yn asesu ceisiadau?' isod.

Gellir defnyddio cyllid refeniw i:

- cyfrannu at leihau costau ychwanegol o gynnal y prosiect
- Gwasanaethau cynghori/ymgyngori arbenigol. Er enghraifft, ar gyfer paratoi cynllun rheoli hirdymor o 15–20 mlynedd.
- digwyddiadau i hyrwyddo'r cynllun coetir i'r gymuned ehangach, ac i ddathlu llwyddiannau cymunedol
- oriau ychwanegol i gydlynnydd gwirfoddolwyr presennol recriwtio, hyfforddi a chefnogi gwirfoddolwyr i gymryd rhan mewn darparu'r coetir
- gwirfoddoli arferion da a threuliau (yn unol â [chanllawiau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru](#))
- gweithgaredd hyrwyddo prosiect
- unrhyw wariant rhesymol a fydd yn galluogi'r prosiect i lwyddo

Costau anghymwys

Mae'r eitemau canlynol yn enghreifftiau o gostau, **nad ydynt** yn gymwys ar gyfer Grant Buddsoddi mewn Coetir. Nid yw hon yn rhestr ddiffiniol a bydd pob eitem o wariant yn cael ei hystyried fesul achos:

- prynu tir
- cost prydlesu tir
- prynu adeiladau
- prosiectau sy'n tynnu/rheoli clefyd coed ynn yn unig
- ail-stocio coed ar safle sydd wedi'i gwmpo
- gwaith sy'n gyfreithiol gyfrifol
- unrhyw waith corfforol ar y safle a wnaed cyn y dyddiad dechrau gwaith awdurdodedig
- prynu cerbydau

- costau llafur ac offer eu hunain
- Peiriannau ac offer ar raddfa ganolig/mawr. Fodd bynnag, gall gwaith sy'n gofyn am offer canolig/mwy a/neu sgiliau arbenigol (h.y. nid i'w ddefnyddio gan wirfoddolwyr lleol) **gael ei gontractio** i mewn a'i ariannu drwy'r cynllun hwn.
- offer swyddfa cyffredinol a dodrefn
- costau cynnal a chadw
- cyfalaf gweithio
- TAW y gellir ei hadennill
- costau sy'n gysylltiedig â chontract prydlesu, megis elw'r prydleswyr, cost ariannu llog, gorbenion a thaliadau yswiriant
- costau trefnu cyfleusterau gorddrafft, benthyciadau neu offerynnau cymorth ariannol eraill – gan gynnwys unrhyw ffioedd cysylltiedig neu daliadau eraill
- gorbenion a ddyrannwyd neu a ddosrannwyd ar gyfraddau sy'n sylweddol uwch na'r rhai a ddefnyddir ar gyfer unrhyw waith tebyg a wneir gan yr ymgeisydd
- gwariant tybiannol
- taliadau ar gyfer gweithgarwch o natur wleidyddol
- dibrisiant, amorteiddiad a nam ar asedau a brynwyd gyda chymorth y grant
- darpariaethau
- rhwymedigaethau amodol
- elw a wnaed gan yr ymgeisydd
- difidendau
- taliadau llog
- taliadau gwasanaeth sy'n codi ar brydlesau cyllid, hurbwrcasu a threfniadau credyd
- costau sy'n deillio o ohirio taliadau i gredydwyr
- costau sy'n gysylltiedig â dirwyn cwmni i ben
- taliadau am ddiswyddo annheg
- taliadau i gynlluniau pensiwn preifat
- taliadau am bensiynau heb eu hariannu
- iawndal am golli swydd
- dyledion drwg sy'n deillio o fenthyciadau i gyflogeion, perchnogion, cyfarwyddwyr, partneriaid, gwarantwyr, cyfranddalwyr neu berson sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r rhain
- taliadau am roddion a chyfraniadau
- adloniant, er enghraifft partion staff
- dirwyon statudol a chosbau
- dirwyon a difrod troseddol
- treuliau cyfreithiol mewn perthynas ag ymgyfreitha

Expand All accordions

Dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau a dyddiadau allweddol

Bydd sawl rownd o Grantiau Buddsoddi mewn Coetir dros y ddwy flynedd nesaf. Agorodd y rhaglen ar 13 Mehefin 2022 ac rydym yn **rownd un** ar hyn o bryd, felly cyfeiriwch at y dyddiadau perthnasol.

Noder: bydd ffurflenni cais yn cael eu dosbarthu os byddwch yn llwyddiannus yn ystod y cam Ffurflen Ymholiadau Prosiect (PEF) gorfodol. Darganfyddwch fwy o dan 'sut i wneud cais'.

Rownd pump

- **Dyddiad cau Ffurflen Ymholiad Prosiect:** 12 hanner dydd 7 Rhagfyr 2023
- **Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:** 12 hanner dydd 21 Chwefror 2024
- **Gwneir y penderfyniad:** Dechrau Mai
- **Dyddiad cwblhau eich prosiect:** 26 Mai 2026

Expand All accordions

Camau i'w cymryd cyn i chi wneud cais

Disgwylir y bydd **pob ymgeisydd** yn cael y caniatâd neu'r caniatâd angenrheidiol gan yr awdurdod lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, neu gyrrff eraill – fel Cadw – cyn cyflwyno cais.

Os nad oes gennych bob un o'ch hawliau/caniatâd ar waith, mae angen i chi ddarparu tystiolaeth eich bod wedi gwneud cais am ganiatâd a hawliau.

Dim ond ar ôl i'r holl ganiatadau/hawliau gael eu rhoi y caiff cyllid ei ryddhau, **a gellir tynnu grantiau'n ôl os na dderbynnir y rhain o fewn chwe mis i'r dyfarniad grant.**

[Gallwch lawrlwytho cynllun coetir a rhestr wirio caniatadau o'n tudalen dogfennau ategol.](#)

Cynllun Creu Coetiroedd

Mae angen i bob prosiect sy'n cynnwys **creu coetiroedd dros ddau hectar** wneud cais i [Gynllun Cynllunio Creu Coetir Llywodraeth Cymru](#) cyn gwneud cais am arian Grant Buddsoddi mewn Coetir.

Mae'r cynllun yn cynnig grantiau rhwng £1,000 a £5,000 i ddatblygu cynlluniau ar gyfer creu coetiroedd newydd, y gellir eu defnyddio i wneud cais am gyllid gan Lywodraeth Cymru am hyd at bum mlynedd.

Ar gyfer **prosiectau creu coetiroedd o dan ddau hectar**, siaradwch â ni am arweiniad pellach.

Cynlluniau Rheoli Coedwigoedd

Bydd angen Cynllun Rheoli Coedwigoedd (FMP) ar bob prosiect, sy'n sicrhau:

- coetiroedd yn cael eu rheoli i egwyddorion Safon Coedwigaeth y DU
- coetiroedd yn dangos bod meini prawf hanfodol y Goedwig Genedlaethol yn cael eu cyflawni, sef 'coetiroedd gwydn o ansawdd da, wedi'u cynllunio a'u rheoli'n dda'

Mae [templod Cynllun Rheoli Coedwigoedd ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru](#) a [gallwch e-bostio Cyfoeth Naturiol Cymru](#), a fydd yn darparu templod ar gais.

Mae'r Cynllun Rheoli Coedwigoedd yn cynnwys 14 o adrannau. Gall y swyddog cyswllt coetiroedd roi gwybod pa adrannau sydd eu hangen ar gyfer eich coetir, ond o leiaf bydd angen i chi gwblhau'r ddwy adran o dan y teitl:

- Ymgeisydd Cynllun Rheoli Coedwigoedd
- Crynodeb o'r Rhaglen Waith

Gall y manylion yn y cynllun fod yn gymesur â maint y prosiect – po fwyaf yw'r safle, y mwyaf o fanylion y byddem yn disgwyl eu gweld yn eich cynllun.

Mae mapiau o'r safle a gwaith arfaethedig yn bwysig i'w cynnwys fel rhan o'r cais.

Gallwch wneud cais am y costau i ddatblygu eich cynllun ymhellach, gan gynnwys y costau rheoli i dalu am y pum mlynedd nesaf o waith i gynnal y prosiect.

Asesiadau o'r effaith amgylcheddol

Cyn i chi wneud cais, [mae'n rhaid i chi gwblhau asesiadau effaith amgylcheddol](#), neu o leiaf wedi gwneud cais amdanynt.

Os nad oes angen asesiadau effaith amgylcheddol ar gyfer eich prosiect, mae'n rhaid i chi ddarparu tystiolaeth ar gyfer hyn.

Tystiolaeth o Berchnogaeth Tir

Mae'n rhaid dangos tystiolaeth o berchnogaeth tir. Mae angen i ni weld copi swyddfa cyfredol o'r Gofrestrfa Tir sy'n dangos eich bod yn berchen ar y tir (neu ar gyfer tir heb ei gofrestru, y gweithredoedd perthnasol). Dylid atodi'r rhain i'ch cais.

Mae'n rhaid dangos tystiolaeth o dir ar brydles ac mae angen i ni weld copi o'r brydles, ochr yn ochr â chaniatâd y tiffeddianwyr tir y gallwch ymgymryd â'r prosiect arfaethedig.

Expand All accordions

Sut byddwn ni'n asesu ceisiadau?

Mae'n rhaid i chi ddangos sut mae eich prosiect yn bodloni nifer o ganlyniadau a dangosyddion perfformiad, fel yr amlinellir isod.

Canlyniadau Coedwigoedd Cenedlaethol

1. Coetiroedd gwydn o ansawdd da, wedi'u cynllunio a'u rheoli'n dda (hanfodol)

[Mae Safon Coedwigaeth y DU \(UKFS\) yn diffinio'r dull o reoli coedwigoedd yn gynaliadwy.](#) Mae eu canllawiau'n berthnasol i bob coetir.

Ewch i wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i gael rhagor o wybodaeth a chynghor ar reoli a gwella coetiroedd:

- [cyfarwyddyd i berchnogion a rheolwyr coetiroedd](#)
- [cael help i blannu coed a chreu coetir](#)

2. Coetiroedd sy'n hygyrch i bobl (hanfodol)

Mae'n rhaid i'ch prosiect wella ansawdd y coetiroedd presennol. Bydd angen cynlluniau rheoli hirdymor arnoch i wneud y coetiroedd yn fwy croesawgar, hygyrch a deniadol i ddarparu ymwelwyr. Gellir defnyddio cyllid i greu llwybrau troed ac arwyddion hygyrch.

3. Cynnwys y gymuned mewn coetiroedd (hanfodol)

Mae'n rhaid i'ch prosiect gael mewnbwn sylweddol gan bobl leol. Mae cynnwys ystod ehangach o bobl yn eich prosiect yn ofyniad gorfodol a mae'n rhaid i chi ddweud wrthym sut rydych yn bwriadu gwneud hyn.

Bydd cynnwys y gymuned yn helpu i annog pobl i ddefnyddio coetiroedd drwy ddarparu llwybrau troed, llwybrau natur, cerfluniau ac ati. Gallai cynnwys y gymuned hefyd gynnwys:

- gweithgareddau i gynnwys pobl yn y gwaith o adfer a chreu'r coetiroedd
- cyfleoedd economaidd i fentrau lleol
- arloesi a datblygu
- gweithgareddau addysgol
- rheoli'r coetiroedd drwy sefydlu grwpiau gwirfoddol, grwpiau ysgol neu fentrau newydd

4. Coetiroedd cysylltiedig (dymunol iawn)

Mae cysylltedd mewn safleoedd Coedwig Genedlaethol i Gymru yn golygu gwella ardaloedd coetir presennol a chreu rhai newydd, ac ar yr un pryd ystyried sut y maent yn cysylltu â safleoedd coetir eraill a sut y gallai hyn fod o fudd i gydnerthedd ecosystemau.

Mae'r canlyniad hwn yn ymwneud yn bennaf â chysylltu coetiroedd er mwyn cefnogi natur ond gallai hefyd gynnwys gwaith i gysylltu coetiroedd â phobl, er enghraifft:

- cysylltiadau emosiynol â choetiroedd trwy helpu pobl i ymddiddori'n wirioneddol yn eu hamgylchedd naturiol
- cysylltiadau ffisegol rhwng coetiroedd, neu â ble mae pobl yn byw, trwy llwybrau troed, llwybrau beicio neu gludiant cyhoeddus

5. Coetiroedd a choed deinamig, amlbwrpas (dymunol iawn)

Dylai coetiroedd fod yn safleoedd amlbwrpas, gan fod o fudd i bobl, natur a'r amgylchedd ehangach.

Fel rhan o'ch cais, mae'n rhaid i chi ddarparu tystiolaeth bod y wefan yn cael ei defnyddio mewn ffyrdd amrywiol, neu fod hyn yn cael ei weithio tuag ato. Gallech gynnwys rhai neu bob un o'r canlynol:

- hamdden
- twristiaeth
- cyfleoedd addysgol/dysgu
- mentrau bach a chanolig lleol
- cynaeafu pren masnachol ar raddfa fawr, gan gyflenwi mwy o bren cartref
- cefnogi bioamrywiaeth

Rydym yn sylweddoli na fydd pob safle yn briodol ar gyfer gwahanol ddefnyddiau, ac efallai y byddant yn canolbwyntio yn hytrach ar wneud rhai o'r pethau hyn yn dda iawn.

6. Coetiroedd sy'n dangos dysgu, ymchwil ac arloesi (dymunol iawn)

Dylai coetiroedd Coedwigoedd Cenedlaethol ddangos yr hyn y gellir ei gyflawni gyda choetiroedd amlbwrpas. Gallai hyn gynnwys:

- dysgu ac adeiladu ar waith pobl eraill
- profi ffyrdd newydd o weithio
- rhannu arloesedd, ymchwil a dysgu gydag eraill

Gall y dystiolaeth a ddarparwyd ar gyfer y canlyniad yma fod yn eang. Gall enghreifftiau gynnwys dangos ffyrdd newydd a gwahanol o:

- darparu coetiroedd amlbwrpas
- cynnwys cymunedau lleol yn y gwaith o ddatblygu a rheoli'r coetiroedd
- gweithredu i gefnogi bioamrywiaeth
- darparu gwasanaethau ecosystem amgylcheddol, megis ansawdd aer a d?r, diogelu rhag llifogydd a sychder
- sicrhau gwydnwch i'r newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol
- darparu cyfleoedd addysgol, fel ysgolion coedwig

[Darllen mwy am y Goedwig Genedlaethol i Gymru.](#)

Lawrlwythwch a [llenwch ein rhestr wirio mesur llwyddiant](#). Gellir mesur y canlyniadau uchod gan un neu fwy o'r dangosyddion ar y rhestr.

Ein canlyniadau

Cynnwys ystod ehangach o bobl mewn treftadaeth (hanfodol)

Mae'n rhaid i'ch prosiect gyflawni ein canlyniad gorfodol: [bydd ystod ehangach o bobl yn ymwneud â threftadaeth](#). Dylech ddweud wrthym sut y byddwch yn gweithio gyda chymunedau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol ac sydd o dan anfantais. Edrychwch ar ein [canllawiau arfer da ar gynhwysiant os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch](#).

Dylech hefyd weithio tuag at y canlyniadau eraill sy'n berthnasol i'ch prosiect:

- [bydd y sefydliad a ariennir yn fwy gwydn](#)
- [bydd gan bobl gwell llesiant](#)
- [bydd pobl wedi datblygu sgiliau](#)
- [bydd yr ardal leol yn lle gwell i fyw, gweithio neu ymweld](#)
- [bydd yr economi leol yn cael hwb](#)
- [bydd y dreftadaeth mewn cyflwr gwell](#)
- [bydd y dreftadaeth yn cael ei nodi a'i hesbonio'n well](#)
- [bydd pobl wedi dysgu am dreftadaeth, gan arwain at newid mewn syniadau a gweithredoedd](#)

Canolbwyntiwch ar y canlyniadau y gallwch eu cyflawni'n dda.

Expand All accordions

Y Gymraeg a chydabyddiaeth

Mae angen i chi gynnwys y Gymraeg yn eich prosiect, a dweud wrthym sut y byddwch yn gwneud hyn yn eich ffurflen gais. Gellir cynnwys costau cyfieithu o fewn eich cyllideb.

Darllenwch fwy o wybodaeth am sut i gyflwyno prosiect dwyieithog.

Bydd angen i chi gydnabod eich grant fel y nodir yn ein canllawiau ar [sut i gydnabod eich canllawiau grant gan Lywodraeth Cymru](#).

Ariennir y Grant Buddsoddi mewn Coetir (TWIG) ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Expand All accordions

Sut i wneud cais

Mae angen i chi gyflwyno Ffurflen Ymholiad Prosiect (PEF) ar ein porth ar-lein.

Os byddwch yn llwyddiannus yn y cam Ymholiad Prosiect, byddwn yn rhoi ffurflen gais i chi ei llenwi.

Dilynwch y camau isod:

1. ewch [i'n porth ymgeisio](#) a chofrestru cyfrif (neu mewngofnodwch os ydych wedi gwneud cais o'r blaen)
2. o'r ddewislen, dewiswch £10,000 i £250,000
3. cwblhewch a chyflwynwch Ffurflen Ymholiad Prosiect – mae hyn yn orfodol
4. Bydd yr holl Ffurflenni Ymholiad Prosiect yn cael eu hystyried gan y panel grant ac yna efallai y cewch eich gwahodd i ddatblygu cais llawn. Os cewch eich gwahodd i wneud cais llawn,

gallwch ddefnyddio ein cefnogaeth, neu gefnogaeth gan Swyddogion Maes Cyfoeth Naturiol Cymru, i sicrhau bod eich cais o safon addas.

5. Os caiff eich Ffurflen Ymholiad Prosiect ei wrthod, gallwch gyflwyno cynnig diwygiedig ar gyfer rownd diweddarach. Nid oes proses apelio.

Nid oes templed Penodol ar gyfer Ffurflen Ymholiadau Prosiect Grant Buddsoddi mewn Coetir. Dylech ddilyn nodiadau cymorth y cais yn ofalus ac ateb yr holl gwestiynau yn ein ffurflen gais am grant o £10,000 i £250,000.

Expand All accordions

Dogfennau ategol

Lawrlwythwch a chwblhewch ein [dogfennau ategol](#). Mae angen eu cyflwyno fel atodiadau i'ch cais. Mae'r rhain yn cynnwys:

- templed cost – mae'r ddogfen hon yn **orfodol**
- rhestr wirio mesur llwyddiant – bydd hyn yn ein helpu i wirio sut mae eich prosiect yn cyflawni ein canlyniadau
- Rhestr wirio cynlluniau coetiroedd a chaniatadau – byddem yn disgwyl i'r holl ganiatadau perthnasol fod wedi'u gwneud neu ar y gweill. I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at y rhan o'r dudalen ganllaw hon o'r enw 'Camau i'w cymryd cyn i chi wneud cais'.

Expand All accordions

Beth sy'n digwydd ar ôl eich prosiect?

Cynlluniau rheoli parhaus

Ar ôl ariannu'r prosiect, gellir cynnwys un taliad i dalu am bum mlynedd o waith cynnal a chadw yn eich cais am grant. Er mwyn hawlio'r arian hwn, mae'n ofynnol i chi gyflwyno cynllun rheoli manwl ar gyfer y safle ar ôl cwblhau'r prosiect.

Gallwch gynnwys costau datblygu'r cynllun yn eich cais.

Statws Coedwig Genedlaethol

Ar 23 Mehefin 2023, lanswyd [Cynllun Statws - Coedwig Genedlaethol Cymru](#). Mae'r cynllun yn galluogi coetiroedd rhagorol i ymuno â rhwydwaith Coedwig Genedlaethol i Gymru.

Nid yw'r Cynllun Statws yn gyfle ariannu. Mae ar gyfer safleoedd coetir sy'n barod i ymuno â Choedwig Genedlaethol i Gymru.

Mae ceisiadau'n agored i unrhyw un sy'n berchen ar goetiroedd yng Nghymru neu sydd â rheolaeth arnynt. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau nid-er-elw a pherchnogion preifat. Gallwch ymgeisio ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, ond byddwn yn ystyried eich cais ar adegau penodol. Yn eich cais, mae'n rhaid i chi ddangos sut mae eich prosiect yn bodloni canlyniadau perthnasol Coedwig Genedlaethol i Gymru.

Nid oes cyfyngiad ar nifer y coetiroedd y gellir dyfarnu statws Coedwig Genedlaethol i Gymru iddynt.

Gallwch drafod safleoedd posib gyda Swyddogion Cyswllt Coedwig Cenedlaethol i Gymru ar draws Cymru.

Mae'r statws yn wirfoddol a bydd gan safleoedd yr opsiwn i adael Coedwig Genedlaethol i Gymru ar unrhyw adeg.

Expand All accordions

Rheoli cymhorthdal a gofynion cyfreithiol eraill

Rheoli cymhorthdal

Eich cyfrifoldeb chi yw cadarnhau bod eich cais yn cael ei ystyried a'i wirio mewn perthynas â rheolau rheoli cymhorthdal.

Ar adeg cyhoeddi'r canllawiau hyn, nid yw arian cyhoeddus ar gyfer sefydliadau bellach yn cael ei lywodraethu gan reolau cymorth gwladwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd. Mae hyn fel y nodir yn Erthygl 107–109 o Gytuniad Gweithrediad yr Undeb Ewropeaidd a'r rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig.

Yn hytrach, mae pob penderfyniad grant a wneir ar ôl 11pm ar 31 Rhagfyr 2020 yn ddarostyngedig i drefn rheoli cymhorthdal newydd y DU. Nodir yr egwyddorion ym Mhennod 3 (Cymorthdaliadau) o Teitl XI (Maes Chwarae Gwastad) o Ran Dau (Masnach, Trafnidiaeth, Pysgodfeydd a Threfniadau Eraill) o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Disgwylir y bydd canllawiau pellach, ymgynghoriad a deddfwriaeth newydd o bosibl yn y maes hwn i adeiladu ar yr egwyddorion hynny. Disgwylir i chi gydymffurfio ag egwyddorion y gyfundrefn rheoli cymhorthdal a bodloni unrhyw ofynion yn y dyfodol.

Bydd cytundebau sy'n cael eu llunio yn cael eu hadolygu a'u hamrywio yn unol â hynny. Rydym yn cadw'r hawl i osod gofynion pellach ac amodau ychwanegol mewn perthynas â'r mater hwn.

Eich cyfrifoldeb chi yw gwirio a oes angen caniatâd cymorth gwladwriaethol neu ganiatâd rheoli cymhorthdal. Ceisiwch gyngor cyfreithiol annibynnol os nad ydych yn si?r a fydd angen clirio prosiect.

Gweithio ar dir preifat

Mae llawer o gynefinoedd a rhywogaethau dynodedig ar dir sy'n eiddo i unigolion preifat neu sefydliadau er elw.

Gall prosiectau gyflawni gwaith neu weithgareddau ar dir preifat, cyn belled â bod unrhyw fudd cyhoeddus yn amlwg yn drech nag unrhyw fudd preifat posibl. Ac, ar yr amod nad yw rheolau rheoli cymhorthdal yn cael eu torri.

Er enghraifft, gallem ariannu'r gwaith o blannu perllannau cymunedol neu greu pyllau. Ond, ni ddylent ychwanegu gwerth ariannol at y tir, na chyfleu unrhyw fudd ariannol anuniongyrchol a allai dorri rheolau rheoli cymhorthdal.

Wrth weithio ar dir preifat, deallwn y gall fod cyfyngiadau ar fynediad cyhoeddus. Ond, rydym yn annog mynediad cyhoeddus i rai o'r safleoedd i fod yn gymwys i gael arian grant. Er mwyn gwella mynediad, gallwch hefyd wneud cais am gyllid ar gyfer seilwaith newydd – er enghraifft: llwybrau, ffensys, gatiau neu guddfannau. Mae'n rhaid i gatiau a llwybrau fod yn addas i'w defnyddio gan y rhai sydd â symudedd cyfyngedig a bodloni'r canlyniad gorfodol i gynnwys ystod ehangach o bobl.

Clefyd coed ynn ac ail-stocio

Ni fyddwn yn ystyried ceisiadau am brosiectau i gael gwared ar neu reoli clefyd coed ynn yn unig.

Gellir ystyried prosiectau sydd ag elfen fach o glefyd coed ynn – fel rhan o brosiect ehangach i adfer a gwella natur. Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth sy'n dangos manteision i fioamrywiaeth a chreu ecosystemau gwydn.

Nid yw ail-stocio coed ar safle sydd wedi'i gwmpo yn gymwys i gael cyllid Grant Buddsoddi mewn Coetir. Mae ail-stocio yn un o ofynion cyfreithiol trwyddedau cwmpo coed ac ni ellir ei ariannu drwy'r cynllun hwn. Fodd bynnag, gallai Grant Buddsoddi mewn Coetir ariannu rhannau eraill o'r prosiect, megis llwybrau troed, arwyddion a seddau.

Expand All accordions

Rheoli eich data

I gael rhagor o wybodaeth am sut y caiff eich data ei brosesu o dan y rhaglen grant hon, [gweler ein polisi preifatrwydd](#).

Expand All accordions

Gwneud cwyn

Deallwn y gallech fod yn siomedig gyda phenderfyniad.

Nid oes hawl i apelio am Grant Buddsoddi mewn Coetir. Dim ond os gallwch wneud cwyn ffurfiol am y ffordd rydym wedi delio â'ch cais y gallwn adolygu ein penderfyniad. Mae gennym broses gwyno dau gam ar gyfer y gronfa hon.

Byddwn ond yn gallu ystyried ac ymchwilio i'r g?yn os gallwch ddangos:

- ni wnaethom ddilyn y gweithdrefnau cyhoeddiedig ar gyfer asesu eich cais
- rydym wedi camddeall rhan sylweddol o'ch cais
- ni wnaethom gymryd sylw o wybodaeth berthnasol

Mae'n rhaid gwneud cwyn ffurfiol yn ysgrifenedig **o fewn 10 diwrnod gwaith** ar ôl derbyn eich penderfyniad cais. Mae'n rhaid i chi anfon eich cwyn at: enquire@heritagefund.org.uk

Ein nod yw cydnabod eich cwyn o fewn tri diwrnod gwaith.

Bydd eich cwyn yn cael ei hadolygu i ddechrau gan un o'n Cyfarwyddwyr Cenedl ac Ardal, sy'n annibynnol ar baneli argymhellion a phenderfyniadau ar gyfer y gronfa hon.

Ein nod yw cyfleu penderfyniad o fewn 15 diwrnod gwaith o'r adeg y gwnaethoch gyflwyno'ch cwyn.

Am gymorth, cysylltwch â'n Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 020 7591 6044 neu e-bostiwch enquire@heritagefund.org.uk.

Ariennir y Grant Buddsoddi mewn Coetir (TWIG) ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Newidiadau i'r canllawiau hyn

Byddwn yn adolygu'r canllawiau hyn yn rheolaidd ac yn ymateb i adborth gan ddefnyddwyr. Rydym yn cadw'r hawl i wneud newidiadau yn ôl y gofyn. Byddwn yn cyfleu unrhyw newidiadau cyn gynted â phosibl drwy'r dudalen we hon.

Diweddariadau tudalen

- **13 Medi 2022:** Yn 'Dyddiadau cau ymgeisio a dyddiadau allweddol', diweddarwyd y dyddiad cau ar gyfer cais rownd un o 19 Medi i 20 Medi 2022 oherwydd g?yl y banc.
- **6 Ebrill 2023:** Ychwanedwyd ffflen gais dros dro. Os oes angen, gall ymgeiswyr ddefnyddio hon i gyflwyno Fffflen Ymholiad Prosiect cyn Dydd Iau Ebrill 12 am hanner dydd, pan fydd ein porth ar-lein i ddod yn ôl ar-lein.
- **13 Ebrill 2023:** Tynnwyd y ffflen gais dros dro i lawr oddi ar y system.

- **9 Mai 2023:** Yn 'Pa gostau allwch chi wneud cais amdanynt?' o dan Costau cyfalaf, cywirwyd pwynt bwled fel ei fod yn darllen 'cyflawni prosiectau (er enghraifft, cynllunio prosiectau, caffael deunyddiau, rheolaeth ariannol y prosiect) nad yw'n fwy na 10% o'r elfen gyfalaf'.
- **11 Medi 2023:** Diweddariadau i ddarparu gwybodaeth am Gynllun Statws Coedwig Genedlaethol i Gymru.
- **6 Hydref 2023:** Crëwyd tudalen newydd ar gyfer nodiadau cymorth y cais. Nid yw'r wybodaeth am sut i wneud cais wedi newid.
- **19 Rhagfyr 2023:** Ychwanegwyd hysbysiad at frig y dudalen, yn nodi nad ydym yn derbyn ceisiadau ar hyn o bryd. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei rhoi ar y dudalen hon ym mis Ionawr 2024.